HSCS(6)-02-21 PTN 2

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

At:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

20 Gorffennaf 2021

Annwyl Gadeiryddion

## Blaenoriaethau plant a phobl ifanc ar gyfer y Chweched Senedd

Fel Pwyllgor y Senedd sy'n gyfrifol am graffu ar yr holl faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, ein bwriad yw sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed fel mater o drefn yng ngwaith ein Pwyllgor. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 14 Gorffennaf, cytunwyd y byddai hyn yn flaenoriaeth allweddol gennym.

Er mwyn llywio ein gwaith cynllunio strategol a'n blaenraglen waith, rydym yn bwriadu cynnal rhaglen wedi'i theilwra o ymgysylltu pwrpasol â phlant a phobl ifanc. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn nhymor yr hydref. Bydd ein ffocws cychwynnol ar ofyn i blant a phobl ifanc beth maen nhw'n feddwl ddylai blaenoriaethau'r Chweched Senedd fod.

O ystyried y bydd yr amrywiaeth o safbwyntiau sydd gan blant a phobl ifanc yn berthnasol i gylch gwaith eich pwyllgor chi, byddwn yn sicrhau bod canlyniadau'r gweithgaredd hwn yn cael eu rhannu â chi, er mwyn sicrhau y gall eich gwaith chwithau ystyried eu barn. Bydd tîm ein Pwyllgor yn sicrhau bod eich timau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau wrth iddynt ddatblygu, a byddant yn cadarnhau amserlenni maes o law.

Cofion cynnes,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.